

Naloxegol i drin rhwymedd wedi'i ysgogi gan opioidau

Gorffennaf 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir naloxegol (Moventig) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl â rhwymedd wedi'i ysgogi gan opioidau na chawsant ymateb digonol i feddyginiaethau gweithio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych rwymedd wedi'i ysgogi gan opioidau, a bod eich meddyg o'r farn mai naloxegol yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai naloxegol fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd naloxegol am ei fod yn gweithio'n well ac yn costio llai na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Er bod llawer o ffactorau yn achosi rhwymedd, gall weithiau ddigwydd fel un o sgîl-ffeithiau cymryd poenladdwyr opiad (opioidau), megis codeine a morffin. Fel gydag unrhyw fath o rwymedd, gall symptomau rhwymedd wedi'i ysgogi gan opioidau amrywio: efallai na fyddwch yn gallu pasio carthion (ysgarthion) mor aml ag y byddwch fel arfer, efallai bod rhaid i chi straenio mwy na'r arfer neu efallai na fyddwch yn gallu gwagio eich coluddion yn llwyr.

Mae naloxegol (Moventig) yn gyffur sy'n gwrthweithio'r ffordd y mae'r opioidau yn effeithio ar eich llwybr gastroberfeddol, heb leihau eu gallu i leihau poen.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn, 0845 345 0165,
www.bladderandbowelfoundation.org
- PromoCon, 0161 607 8219, www.disabledliving.co.uk/PromoCon

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1409-8